CYNLLUN CREU LLEOEDD
ABERGELE
PLACEMAKING PLAN


# Astudiaeth Canol Tref Abergele


## Cynllun Gweithedu Arfaethedig – Adborth (☹ - dibwys 😐 - dim barn ☺ - pwysig)


| Gweithredu | | Disgrifiad | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|
| **A. Safle Datblygu'r De Ddwyrain** |  | i. Darparu cysylltiadau cerddwyr/beicwyr yn Safle Datblygu'r De Ddwyrain trwy Bryn Hyfryd, Ffordd San Siôr a Ffordd Rhuddlan.<br>ii. Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd y ffordd gyswllt newydd i ganol y dref.<br>iii. Cyfyngu ar faint y siop hwylustod lleol arfaethedig i annog cysylltiadau â chanol y dref.<br>iv. Gwelliannau i oleuadau traffig a monitro cysylltiedig yng nghanol y dref yn ystod cam cyntaf datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **B. Gwelliannau Ffordd Rhuddlan** |  | i. Gwneud gwelliannau i Ffordd Rhuddlan i annog beicio a cherddded fel y byddant yn cael mwy o flaenoriaeth.<br>**ii.** Tynnu sylw at ganol y dref i ddefnyddwyr trwy arwyddion ymlaen llaw ac arwyddion cyfeirio a chyflwyno nodweddion i'r pyrth allanol. | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **C. Gwelliant Stryd y Bont** |  | i. Gwella tu blaen adeiladau ar hyd Stryd y Bont, lloriau uchaf, arwyddion, blaen palmentydd, colofnau goleuo, etc.<br>ii. Gwella'r gyffordd â Ffordd San Siôr: trin y gerbydffordd, pwyntiau croesi anffurfiol i gerddwyr, tirlunio, arwyddion canol y dref<br>iii. Cyflwyno nodwedd i'r porth mewnol gyda Nant Gele: symud adeilad presennol CAB (ail-leoli'r ddarpariaeth), creu gofod agored dinesig ger y Nant, creu cyswllt â'r Parc trwy bont a chyfres o fyrddau cerdded, arwyddion a dehongliad ymlaen i Ddyffryn Gele a ffynhonnell y nant<br>iv. Gwella cysylltiadau cerddwyr i'r Ganolfan Hamdden a safle'r ysgol heibio i'r Nant<br>**v.** Gwella murluniau/arwyddion masnachol talcenni | ☹<br>😐<br>☺ | |

| Gweithredu | | Disgrifiad | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|
| **D. Parc Gele** |  | i. Creu canolbwynt ym Mharc Gele ar bowlen bridd/amffitheatr fel lle ar gyfer digwyddiadau anffurfiol: lle amser cinio, cychwyn teithiau cerdded o amgylch y dref, perfformiadau celfyddydol a diwylliannol lleol, lle ar gyfer digwyddiadau dros dro<br>ii. Creu lle tyfu cymunedol yng nghornel dde orllewinol y Parc, adolygu llwybr y Trim Trail ac aildrefnu'r lle<br>iii. Arwyddion parhau ar gyfer teithiau cerdded allan i'r bryniau a Ffynnon Gele | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **E. Cyffordd Stryd y Dŵr** |  | i. Gwella llwybrau troed a thrin y gerbydffordd i greu lle brafiach i gerddwyr sy'n defnyddio'r un deunyddiau ac arddull â gwelliannau Stryd y Bont<br>ii. Cynnwys gofod mwynderol ar gorneli ac adolygu plannu, map y dref a gwybodaeth i ymwelwyr | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **F. Canol Stryd y Farchnad** |  | i. Ailagor cyswllt yr Arcêd i'r iard gefn ac ymlaen i faes parcio Stryd y Dŵr; defnyddio gwaith celf, goleuadau a chyflwyno dibenion gweithredol o fewn yr Arcêd ac ymlaen i'r stryd<br>ii. Archwilio dichonodeb ailddefnyddio llawr uchaf hen Neuadd y Dref/Sinema'r Glyn; gallai'r defnydd a'r gweithgaredd gynnwys:<br>a. Fflatiau preswyl<br>b. Creu gofod mentro<br>c. Gofod cymunedol hyblyg: lle cyfarfod, sinema gymunedol, oriel, etc<br>iii. Datblygu'r iard gefn fel gofod ar gyfer marchnadoedd a digwyddiadau dros dro a chreu cyswllt agored â maes parcio Stryd y Dŵr<br>iv. Ailbalmantu'r brif gerbydffordd ee gwaith blociau i arwyddo canolfan canol y dref ac amgylchedd cerddwyr<br>v. Edrych ar ffyrdd o ymestyn palmentydd ac atgyfnerthu hwylustod parcio a lleoedd preswylio ar-stryd | ☹<br>😐<br>☺ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | vi. Gwella blaen adeiladau ar hyd Stryd y Farchnad: lloriau gwaelod ac uwch, defnyddio paled tref, arwyddion, defnyddio canopis, etc<br>vii. Gwella llwybrau a thrin y gerbydffordd yn Stryd y Capel i greu lle brafiach i gerddwyr sy'n parhau â'r un deunyddiau a phaled â gwelliant Stryd y Farchnad/Stryd y Bont<br>viii. Gwella maes parcio Stryd y Dŵr<br>ix. Gwella cysylltiadau cerddwyr i ganol y dref o'r cwr deheuol i'r cyswllt arfaethedig trwy arcêd Stryd y Farchnad a thrwy ardal yr Eglwys<br>x. Archwilio i weld a ellir creu mwy o leoedd parcio | | |

| Gweithredu | | Disgrifiad | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|
| **G. Cysytlliad Gwesty/Stablau'r Bee/Tesco** |  | i. Gwella golwg allanol gwesty'r Bee fel adeilad allweddol ar y fynedfa orllewinol a'i gyflwyno fel cyrchfan ar gyfer lle a bwyd/diod<br>ii. Gwella tu blaen gwesty'r Bee a'r lle parcio cyfagos fel ei fod yn cyfrannu at y olwg y stryd ac amlygu gwesty'r Bee yn well<br>iii. Adnewyddu'r hen stablau a chyflwyno defnyddiau eraill atodol fel datblygiad buarth ar gyfer siopau annibynnol, caffis etc.<br>iv. Gwella'r rhan o dir y tu ôl i'r hen stablau fel y gellir datblygu llwybr diogelach a haws i gerddwyr rhwng Tesco a chanol y dref | ☹<br>😐<br>☺ | |

| Gweithredu | | Disgrifiad | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|
| **H. Hen Ysgol/ Llyfrgell/ Safle maes parcio** | <br> | i. Archwilio'r posibilrwydd o gadw'r lle cyfarfod cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd o fewn y Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol yn rhywle arall o fewn canol y dref fel y gall trigolion lleol gymdeithasu, cadw'n iach a datblygu sgiliau/diddordeb<br>ii. Cyfleuster 21ain ganrif sy'n integreiddio ag anghenion eraill y gymuned i gymryd lle'r llyfrgell bresennol<br>iii. Cynnal astudiaeth ddichonoldeb o'r Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol, Llyfrgell yr hen Ganolfan Iechyd a safle'r maes parcio sy'n chwilio am ffyrdd o alluogi datblygiad newydd ac ailddefnyddio asedau hanesyddol: dylai'r astudiaeth archwilio'r canlynol:<br>a. Sut y gellir cynnwys y ddarpariaeth bresennol o fewn canol y dref ee grwpiau celf, mamau a phlant bach etc<br>b. Gallai'r defnydd o'r Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol yn y dyfodol gynnwys canolfan gelf a chrefft gan gynnwys oriel, gofod stiwdio, siop a chaffi, yn ogystal â chanolfan weithgareddau ee llogi beiciau, siop awyr agored yn ogystal â defnyddiau preswyl<br>c. Integreiddio'r defnyddiau cymunedol i adeilad tebyg i ganolfan a allai gynnwys llyfrgell newydd, siop un stop i Gyngor Conwy/Heddlu/Bwrdd Iechyd, adnodd cymunedol, gofod ystafell gyfarfod, unedau menter, siopau a bwyd a diod.<br>iv. Dylai'r astudiaeth edrych hefyd ar sut y caiff y maes parcio ei gynnal i siopwyr ond ei fod hefyd yn ofod ar gyfer marchnadoedd wythnosol a digwyddiadau, ac a ddylai gynnwys y maes parcio i weithwyr y Cyngor y tu ôl i'r Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol<br>v. Dylai dyluniad ac ailddatblygiad y tirlun gydgysylltu â chynigion ar gyfer ochr gwesty'r Bee o Stryd y Farchnad | ☹<br><br>😐<br><br>☺ | |

| Gweithredu | | Disgrifiad | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|
| **I. Porth Gorllewinol Stryd y Farchnad** |  | i. Gwella'r porth mewnol ar Ffordd y Môr/Stryd y Farchnad/Mynedfa Tesco; symleiddio arwyddion, trin y gerbydffordd, gwell cysylltiadau ar draws y ffordd | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **J. Y ffordd o Gastell Gwrych** |  | i. Plannu coed ar ochr ddeheuol Stryd y Farchnad rhwng Castell Gwrych i'w gwneud yn debycach i goedlan | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **K. Parc Pentre Mawr** |  | i. Gwella arwyddion i Barc Pentre Mawr o Goedlan Dundonald ar gyfer ymwelwyr tro cyntaf<br>ii. Neilltuo lle parcio fel darpariaeth parcio a cherdded i ganol y dref gyda chysylltiadau trwy Ffordd y Môr neu trwy Stryd y Dŵr | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **L. Gwelliannau Cyffredinol i'r Strydlun** |  | i. Targedu tu blaen siopau a busnesau â llawlyfr dylunio cydgysylltiedig<br>ii. Mabwysiadu arddull safonol ar gyfer dodrefn stryd yng nghanol y dref<br>iii. Datblygu system arwyddion integredig sy'n cysylltu moddau cerbydau, cerddwyr a beicio ar gyfer arwyddion ymlaen llaw, cyfeiriadol, a gwybodaeth/dehongli sy'n tywys o fewn canol y dref ac yn cysylltu â llwybrau mwy gwledig ac arfordirol | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **M. Pensarn** |  | i. Sefydlu gorsaf reilffordd Pensarn fel canolfan arfordirol ar gyfer gweithgareddau – llogi beiciau, pwynt gwybodaeth i ymwelwyr, a chyfeirio ymwelwyr i Abergele ar hyd Ffordd y Môr ac ymlaen i ganol y dref; potensial i gysylltu hyn ag astudiaeth ddichonldeb ar gyfer adeilad y Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol | ☹<br>😐<br>☺ | |

| Gweithredu | | Disgrifiad | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|
| **N. Cefnogi Busnesau Canol y Dref** |  | i. Datblygu brand/hunaniaeth i ganol y dref sy'n cefnogi'r angen i siopa/prynu'n lleol (calon a chrys-t Vince)<br>ii. Cyflwyno ymgyrch prynu'n lleol gyda llyfryn, posteri, digwyddiadau hyrwyddo a blasu, mapiau newydd o ganol y dref, ymysg mentrau eraill<br>iii. Datblygu ymgyrch ddigidol i ganol tref Abergele i gynnwys cyfryngau cymdeithasol, hyrwyddo dros y we ac archwilio'r posibilrwydd o gerdyn "lleol" Abergele<br>iv. Cymryd rhan yn y Sadwrn Busnesau Bach – Rhagfyr 3<br>v. Datblygu pecyn i berchnogion tai newydd sy'n codi ymwybyddiaeth o ganol tref Abergele, gan weithio gyda gwerthwyr tai a datblygwyr lleol<br>vi. Datblygu digwyddiadau cychwyn/blasu busnes trwy farchnadoedd awyr agored a stondinau dros dro mewn adeiladau gwag | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **O. Digwyddiadau a Gweithgaredd au** |  | i. Datblygu rhaglen ddigwyddiadau canol y dref rhwng y Fforwm Busnesau, Cyngor y Dref a mudiadau cymunedol. Y syniadau i gynnwys:<br>a. Cyngherddau awyr agored, sinema (wedi'i bweru â beic), digwyddiadau ym Mharc Pentre Mawr<br>b. Parc Gele – dramâu bach ac adrodd straeon<br>c. Gŵyl gerdded neu feicio – "Cylch Gele" – sy'n gysylltiedig â chanol y dref – o'r arfordir i'r bryniau – codi arian at elusennau lleol<br>d. Cerddoriaeth, theatr stryd a chlera o flaen y Ganolfan Gymunedol<br>e. Cyfres o gyngherddau a gigs mewn eglwysi, capeli, tafarnau a pharciau cyhoeddus lleol | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **P. Denu Busnesau Newydd** |  | i. Trefnu marchnadoedd awyr agored lleol sy'n hyrwyddo cynnyrch lleol a chelf/crefftau a'r rheini'n cael eu cefnogi gan wasanaeth 'clicio a chasglu' wythnosol.<br>ii. Datblygu digwyddiadau profi/cychwyn busnes trwy siopau dros dro mewn adeiladau gwag<br>iii. Gweithio gyda landlordiaid i lenwi bylchau yn yr hyn mae siopau'n ei gynnig er mwyn amrywio ac ehangu'r apêl i bobl ifanc a thrigolion newydd | ☹<br>😐<br>☺ | |

| Gweithredu | | Disgrifiad | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|
| **Q. Creu Tref Daclus a Deniadol** |  | i. Gweithio gyda busnesau a landlordiaid lleol i ailbaentio tu blaen siopau a gwneud mân atgyweiriadau<br>ii. Parhau i roi blaenoriaeth i godi sbwriel a threfnu casgliadau sbwriel chwarterol, plannu llwyni, basgedi crog, paentio rheiliau etc.<br>iii. Addurniadau ffenest thematig ar gyfer Calan Gaeaf, y Nadolig etc. | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **R. Gwella Parcio a Thraffig** |  | i. Gwell arwyddion i feysydd parcio ac allan ohonynt, yn enwedig Stryd y Dŵr<br>ii. Arwyddion eglurach ynghylch rheolau gorfodi ym maes parcio Tesco, gan gynnwys estyniadau ar gyfer digwyddiadau cymunedol<br>iii. Trefnu bod maes parcio'r clinig ar gael gyda'r nosau a phenwythnosau<br>iv. Polisi codi tâl tebyg ym meysydd parcio'r Llyfgell a'r Lôn Ddŵr<br>v. Gwella darpariaeth parcio ar-stryd a threfn orfodi er mwyn sicrhau rhediad cyson<br>vi. Adnabod lleoedd addas i weithwyr barcio mewn strydoedd cyfagos<br>vii. Adnabod parcio cyfnodau byr i siopwyr ar Stryd y Bont gan gynnwys y tu allan i'r capel<br>viii. Newid amseru goleuadau traffig i'w gwneud yn haws i gerddwyr groesi | ☹<br>😐<br>☺ | |
| **S. Gweithio mewn Partneriaeth** |  | i. Creu partneriaeth sy'n cynnwys y Fforwm Busnesau, Cyngor y Dref, grwpiau cymunedol lleol a Cynghor Conwy i gydgysylltu a chyflwyno rhaglen o welliannau a gweithgareddau wedi'u trefnu yng nghanol tref Abergele. | ☹<br>😐<br>☺ | |

# Blaenoriaethau

Rhestrwch eich 3 blaenoriaeth uchaf ar gyfer gweithredu.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1** | |
| **Blaenoriaeth 2** | |
| **Blaenoriaeth 3** | |

# Cadwch mewn cysylltiad

Rhowch eich manylion cyswllt os oes arnoch eisiau cadw mewn cysylltiad.

| | |
|---|---|
| Enw | |
| E-bost | |
| Ffôn | |